

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Canlyniadau Etholiad Cynulliad 2007 (diweddariad) Gorffennaf 2007

Mae'r papur hwn yn cyflwyno'r canlyniadau, nifer y pleidleisiau, y gyfran o'r pleidleisiau a nifer yr etholwyr a bleidleisiodd yn etholiad y Cynulliad ar 3 Mai 2007.

Mae'n disodli'r papur byrrach a gyhoeddwyd ym mis Mai, yn gwneud mân ddiwygiadau i'r data ac yn dadansoddi a chyflwyno'r canlyniadau ymhellach.

Gwasanaeth
Ymchwil yr
Aelodau



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau'n darparu cymorth ymchwil cyfrinachol a diduedd i bwyllgorau craffu a phwyllgorau deddfwriaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac i'r cyfan o'r 60 Aelod Cynulliad a'u staff.

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau yn cael eu ysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosib i roi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylw ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallech eu hanfon at y cyfeiriad post neu ebost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur drwy safle'r Cynulliad Cenedlaethol ar:
www.cynulliadcymru.org/bus-assembly-publications-research.htm

Mae copïau printiedig hefyd ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau:

Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ebost: MembersLibrary@wales.gsi.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2010

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Canlyniadau Etholiad Cynulliad 2007
(diweddariad)
Gorffennaf 2007**

Y Tîm Cyllid ac Ystadegau

Rhif dogfen: 07 / 069



Gwasanaeth
Ymchwil yr
Aelodau

Cynnwys

1. Cyflwyniad	1
Y system etholiadol.....	1
Ffynonellau data 2007	1
Newidiadau i'r ffiniau	2
2. Dadansoddiad o'r canlyniadau	3
2.1. Crynodeb cenedlaethol.....	3
2.2. Crynodebau rhanbarthol	10
2.2.1. Canolbarth a Gorllewin Cymru	10
2.2.2. Gogledd Cymru	12
2.2.3. Canol De Cymru	14
2.2.4. Dwyrain De Cymru	16
2.2.5. Gorllewin De Cymru	18
2.3. Crynodebau'r pleidiau	20
2.3.1. Y Ceidwadwyr	20
2.3.2. Llafur.....	24
2.3.3. Y Democratiaid Rhyddfrydol	28
2.3.4. Plaid Cymru	32
2.4. Seddi yr etholwyd Aelodau newydd iddynt (canlyniadau tybiannol)	36
2.5. Seddi diogel ac ymylol.....	40
2.6. Yr etholwyr a nifer y pleidleiswyr	43
2.6.1. Yr etholwyr	43
2.6.2. Nifer yr etholwyr a bleidleisiodd	44
2.6.3. Nifer y pleidleiswyr yn ôl nodweddion cymdeithasol	47
2.6.4. Yr etholwyr a nifer y pleidleiswyr yn ôl y pleidiau buddugol (y bleidlais etholaethol)	49
2.7. Ymgeiswyr	51
2.7.1. Ymgeiswyr yn ôl plaid a safle	52
2.8. Dadansoddiad yn ôl nodweddion etholaethol.....	53
2.9. Aelodau'r Cynulliad.....	55
3. Tablau Cyfeirio	56
3.1. Crynodeb o'r pleidleisio yng Nghymru.....	56
3.2. Tabl o'r etholaethau - Pleidleisiau yn y bleidlais etholaethol	57
3.3. Tabl o'r etholaethau - Cyfran o'r bleidlais etholaethol.....	58
3.4. Tabl o'r etholaethau - Newid yng nghyfran y bleidlais etholaethol, gogwydd.....	59
3.5. Tabl o'r etholaethau - Yr etholwyr a nifer y pleidleiswyr	60
3.6. Tabl o'r etholaethau - Seddi yn ôl mwyafrif (wedi'u rhestru yn ôl % y mwyafrif mwyaf)	61
3.7. Tabl o'r etholaethau - Seddi yn ôl nifer y pleidleiswyr (wedi'u rhestru yn ôl nifer mwyaf y pleidleiswyr).....	62
3.8. Tabl o'r etholaethau - Pleidleisiau yn y bleidlais ranbarthol.....	63
3.9. Tabl yr etholaethau - Cyfran o'r bleidlais ranbarthol	64
3.10. Y gwahaniaeth rhwng cyfran y pleidleisiau etholaethol a rhanbarthol, yn ôl etholaeth (a)	65
3.11. Tabl o'r rhanbarthau - Pleidleisiau a chyfran y bleidlais	66

3.12.	Y gwahaniaeth rhwng cyfran y pleidleisiau yn y pleidleisiau etholaethol a rhanbarthol, yn ôl rhanbarth (a)	66
3.13.	Tabl o'r rhanbarthau - Seddi a newid yn y seddi	67
3.14.	Tabl o'r rhanbarthau - Newid yng nghyfran y bleidlais, nifer y pleidleiswyr.....	68
3.15.	Aelodau etholedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Mai 2007	69
3.16.	Y pleidiau bach a'r ymgeiswyr annibynnol a gadwodd eu blaendaliadau.....	70
3.17.	Tabl y bleidlais etholaethol - Pleidleisiau, gan gynnwys pleidiau bach ac ymgeiswyr annibynnol.....	71
3.18.	Tabl y bleidlais ranbarthol - Pleidleisiau, gan gynnwys pleidiau bach ac ymgeiswyr annibynnol.....	72
Ffynonellau a Nodiadau	73	
Newidiadau i'r ffiniau etholaethol.....	73	
Ffynonellau'r data - pleidleisiau	73	
Isetholiad Blaenau Gwent	74	
Allwedd i godau'r pleidiau	75	

Canlyniadau Etholiad Cynulliad 2007

1. Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn rhoi crynodeb o'r canlyniadau, nifer y pleidleisiau, cyfran y pleidleisiau a nifer yr etholwyr a bleidleisiodd yn etholiad y trydydd Cynulliad ar 3 Mai 2007. Mae'n disodli'r papur byrrach a gyhoeddwyd ym mis Mai, ac yn gwneud mân ddiwygiadau i'r data mewn rhai manau. Mae'n dadansoddi ac yn cyflwyno'r canlyniadau ymhellach, ac yn rhoi gwybodaeth newydd, gan gynnwys ystadegau am nifer yr ymgeiswyr, y gogwydd, a chanlyniadau'r bleidlais ranbarthol.

Bwriedir i'r papur hwn gael ei gyhoeddi mewn lliw, ac mae'n bosibl na fydd modd deall nifer o'r siartiau, y tablau a'r mapiau mewn fformat du a gwyn.

Mae'r bedwaredd adran yn rhoi gwybodaeth esboniadol am nifer o agweddau ar y papur hwn, gan gynnwys allwedd i godau'r pleidiau a ddefnyddir drwy'r papur.

Y system etholiadol

Y system etholiadol a ddefnyddir yng Nghymru yw'r System Aelod Ychwanegol. Mae gan y Cynulliad 60 o aelodau etholedig ac mae gan bob etholwr ddwy bleidlais. Defnyddir y bleidlais gyntaf i ethol Aelod Cynulliad lleol neu etholaethol ar sail y cyntaf i'r felin. Etholir 40 o Aelodau ar y sail hon, un o bob etholaeth.

Defnyddir yr ail bleidlais i ethol 20 o Aelodau ychwanegol, ar sail ranbarthol, i geisio sicrhau bod cyfanswm nifer y seddi ar gyfer pob plaid yn adlewyrchu'r gyfran a gawsant o'r bleidlais. Defnyddir fformiwla d'Hondt i benderfynu pa bleidiau sy'n ennill seddi ar y rhestr ranbarthol. Ceir rhagor o wybodaeth am fformiwla d'Hondt, gan gynnwys enghreifftiau a ddefnyddiwyd ar gyfer etholiad 2007, yn y bedwaredd adran (ffynonellau a nodiadau). Am ragor o wybodaeth, cyfeiriwch at bapur Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau, 'Etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2007'¹, sy'n rhoi gwybodaeth gyffredinol am y system etholiadol, y gyfraith etholiadol, a'r paratodau at etholiad 3 Mai 2007.

Ffynonellau data 2007

Darparwyd yr ystadegau etholiadol yn y papur hwn gan bob awdurdod lleol fel rhan o'r datganiadau o ganlyniadau'r pleidleisiau etholaethol a rhanbarthol sydd ar gael ar wefannau'r awdurdodau lleol. Os na chawsant eu cyhoeddi, cawsant eu darparu'n uniongyrchol gan y swyddogion canlyniadau. Diweddarwyd yr holl ffigurau ynghylch yr etholwyr a nifer y pleidleiswyr ers cyhoeddi'r papur gwreiddiol ar ganlyniadau'r etholiad (a oedd yn defnyddio ffigurau etholaethau'r Swyddfa Ystadegau Genedlaethol). Dilyswyd y ffigurau drwy groesgyfeirio â'r

¹ Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau, *Etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2007*
<http://assembly/presidingoffic/mrs/briefings/2007/mrs070239%20assembly%20elections%20paper%20final.doc>

rheini a gyhoeddwyd gan Lyfrgell Tŷ'r Cyffredin. Mae'r holl ffigurau'n rhai dros dro ac mae'n bosibl iddynt gael eu diwygio pan gyhoeddir y canlyniadau swyddogol gan y Comisiwn Etholiadol.

Mae'r papur hwn yn cynnwys cymariaethau rhwng canlyniadau etholiad 2007 ac etholiad 2003. Cynhaliwyd isetholiad ym Mlaenau Gwent yn 2006, ac ni chafodd y canlyniadau eu cynnwys yn y prif ddadansoddiadau. Gweler adran pedwar am ragor o fanylion.

Newidiadau i'r ffiniau

Arweiniodd adolygiad gan Gomisiwn Ffiniau Cymru at newid ffiniau etholaethau'r Cynulliad a'r rhanbarthau etholaethol, a defnyddiwyd y ffiniau newydd hyn am y tro cyntaf yn yr etholiad Cynulliad hwn. Oherwydd y newidiadau i'r ffiniau mewn rhai ardaloedd, rhaid defnyddio ffigurau tybiannol wrth gymharu canlyniadau etholiadau 2003 a 2007. Mae'r canlyniadau tybiannol hyn, a gasglwyd gan yr Athro Colin Rallings a'r Athro Michael Thrasher o Brifysgol Plymouth, yn cymhwyso ffigurau etholiad 2003 i'r ffiniau newydd. Lle ceir cymariaethau gyda 2003, mae nodyn i ddangos a yw canlyniadau gwirioneddol neu ganlyniadau tybiannol 2003, ynteu'r ddau, wedi cael eu defnyddio. Gweler adran pedwar am ragor o fanylion.


2. Dadansoddiad o'r canlyniadau

2.1. Crynodeb cenedlaethol

Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o ganlyniadau etholiad Cynulliad 2007 yng Nghymru. Yn dilyn hyn, ceir mapiau ar gyfer enillwyr y seddi yn 2003 a 2007, a map sy'n dangos yr enillwyr tybiannol yn 2003, ar sail y ffiniau etholaethol a rhanbarthol newydd.

	Ceid	Llaf	DRh	PC	Arall	Cyfanswm
Seddi						
Seddi etholaethol	5	24	3	7	1	40
Seddi rhanbarthol	7	2	3	8	0	20
Cyfanswm y seddi a enillwyd	12	26	6	15	1	60
Newidiadau	+1	-4	0	+3	0	0
Y bleidlais etholaethol						
Pleidleisiau (miloedd)	219	315	144	219	81	978
Canran y bleidlais	22.4%	32.2%	14.8%	22.4%	8.3%	100%
Newid mewn pwynt canrannol	+2.4%	-7.8%	+0.6%	+1.2%	+3.5%	0%
Y bleidlais ranbarthol						
Pleidleisiau (miloedd)	209	289	115	205	157	975
Canran y bleidlais	21.5%	29.6%	11.7%	21.0%	16.1%	100%
Newid mewn pwynt canrannol	+2.3%	-6.9%	-1.0%	+1.3%	+4.3%	0%


- Enillodd Llafur 26 o'r seddi yn y Cynulliad, 4 yn llai nag yn 2003, a 2 yn llai nag yn 1999.
- Enillodd Plaid Cymru 15 o'r seddi, 3 yn fwy nag yn 2003, ond 2 yn llai na'r 17 a enillodd yn etholiad 1999.
- Enillodd y Ceidwadwyr 12 o seddi, 1 yn fwy nag yn 2003, a 3 yn fwy nag yn 1999.
- Enillodd y Democratiaid Rhyddfrydol 6 o seddi, sef yr un nifer ag yn 2003 ac 1999.
- Cafodd Trish Law (Llais y Bobl) ei hailethol yn Aelod Cynulliad dros Flaenau Gwent, ar ôl iddi ennill y sedd oddi ar Lafur yn isetholiad 2006.




Dangosir cyfran gyffredinol y bleidlais etholiadol, a'r newidiadau ers 2003 yn ôl pob plaid, ar y dudalen nesaf.

- Llafur a gafodd y gyfran uchaf: bron i draean y pleidleisiau. Llafur oedd yr unig un o'r pedair prif blaid a welodd ostyngiad (bron i 8 pwynt %) yn ei chyfran o'r bleidlais, o'i gymharu â 2003.
- Cafodd y Ceidwadwyr a Phlaid Cymru ychydig dros 22 y cant yr un o'r bleidlais gyfan. Cynyddodd y Ceidwadwyr eu cyfran 2.4 pwynt %, sef dwbl y cynnydd a gafodd Plaid Cymru.
- Cafodd y Democratiaid Rhyddfrydol 15 y cant o'r bleidlais. Roedd gostyngiad bach o 0.6 pwynt % yn eu cyfran ers 2003.
- Gyda'i gilydd, cafodd y pleidiau llai a'r ymgeiswyr annibynnol dros 8 y cant o'r bleidlais, sef cynnydd o 3.5 pwynt % ers 2003.

Cyfran o'r bleidlais et holaet hol: 2007




Newidiadau canrannol yng nghyfran y bleidlais etholaethol ers 2003




Dangosir isod raniad cyffredinol y bleidlais ranbarthol, a'r newidiadau ers 2003 fesul plaid.

- Gyda'i gilydd, cafodd y pleidiau llai a'r ymgeiswyr annibynnol dros 16 y cant o'r bleidlais ranbarthol, sef bron i ddwbl y gyfran a gawsant yn y bleidlais etholaethol.
- Roedd newid tebyg yng nghyfran pleidlais y prif bleidiau ers 2003 fel ag yn y bleidlais etholaethol, heblaw am y Democratiaid Rhyddfrydol, a welodd ostyngiad o 1 y cant yn eu cyfran ranbarthol.


Cyfran o'r bleidlais ranbart hol: 2007



Newidiadau canrannol yng nghyfran y bleidlais ranbarthol ers 2003




Mae'r siart hwn yn dangos dyraniad y seddi a enillwyd gan y pedair prif blaid mewn etholiadau ers 1999.



Mae hyn yn cynnwys y 40 o seddi etholaethol ar gyfer etholiadau cyffredinol 2001 a 2005.

Ar gyfer etholaethau'r Cynulliad yn 1999, 2003 a 2007, mae'r seddi rhanbarthol ychwanegol mewn lliwiau goleuach





Mae'r siart ar y dde yn dangos cyfran y bleidlais etholaethol a enillwyd gan y pedair prif blaid yn etholiadau'r Cynulliad a'r etholiadau cyffredinol ers 1999.







Mae'r tabl isod yn dangos yr ardaloedd gyda'r niferoedd mwyaf a lleiaf o bleidleiswyr yn y bleidlais etholaethol, mewn perthynas â nifer o ganlyniadau, gan gynnwys canran y mwyafrif a chanran nifer y bobl a bleidleisiodd.

Yr uchaf a'r isaf: 2007





Y cynnydd mwyaf mewn pwynt % yng nghanran y bleidlais (y prif bleidiau)

1		Pontypridd	+13.1%
2		Dwyrain Casnewydd	+11.5%
3		De Clwyd	+10.7%
4		Gŵyr	+10.2%



Y gostyngiad mwyaf mewn pwynt % yng nghanran y bleidlais (y prif bleidiau)

1		Blaenau Gwent	-38.9%
2		Merthyr Tudful a Rhymni	-23.5%
3		Islwyn	-18.2%
4		Ynys Môn	-15.5%





Y seddi diogelaf yn ôl mwyafrif (pwynt %)

1		Dwyfor Meirionnydd	40.1%
2		Ogwr	34.7%
3		Aberafan	32.0%
4		Canol Caerdydd	29.3%


Y seddi mwyaf ymylol yn ôl mwyafrif (pwynt %)

1		Bro Morgannwg	0.2%
2		Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro	0.3%
3		Dyffryn Clwyd	0.4%
4		Wrecsam	2.4%





Y gyfran uchaf o'r bleidlais mewn canrannau

1		Dwyfor Meirionnydd	59.7%
2		Rhondda	58.2%
3		Cwm Cynon	56.7%
4		Blaenau Gwent	54.1%





Y gyfran isaf o'r bleidlais mewn canrannau (y prif bleidiau)

1		Ynys Môn	3.4%
2		Llanelli	3.8%
3		Blaenau Gwent	4.0%
4		Blaenau Gwent	4.8%


Y nifer uchaf a bleidleisiodd mewn canrannau

1		Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr	55.7%
2		Ceredigion	55.6%
3		Ynys Môn	52.1%
4		Brycheiniog a Sir Faesyfed	51.8%

Y nifer isaf a bleidleisiodd mewn canrannau

1		Dwyrain Abertawe	35.0%
2		Alun a Glannau Dyfrdwy	35.5%
3		Canol Caerdydd	36.1%
4		Gorllewin Abertawe	37.2%


Nodyn: Mae'r blociau lliw yn dangos y blaid y mae'r data'n berthnasol iddi, neu o ran nifer yr etholwyr a bleidleisiodd, y blaid fuddugol.




Mae'r map ar y dudalen nesaf yn dangos holl enillwyr y seddi etholaethol a rhanbarthol yn etholiad Cynulliad 2007. Mae'r map bach ar y dde yn dangos yr un enillwyr yn y seddi etholaethol, ond mae'r ardaloedd etholaethol yn cael eu cynrychioli gan flociau o'r un maint. Mae'r llinellau du yn dangos y ffiniau rhanbarthol.

Mae'r map hwn yn cael gwared ar y pwyslais anghymesur a roddir ar y pleidiau a enillodd etholaethau mwy (o ran ardal), a allai ddigwydd wrth edrych ar y map ar y dudalen nesaf.


Map o enillwyr seddi etholiad Cynulliad 2007



Map o enillwyr seddi etholiad y Cynulliad yn 2003 - y canlyniadau gwirioneddol yn ôl ffiniau 2003



Map o enillwyr seddi etholiad y Cynulliad yn 2003 - canlyniadau tybiannol yn ôl ffiniau 2007



2.2. Crynodebau rhanbarthol

2.2.1. Canolbarth a Gorllewin Cymru


Gwneir y cymariaethau gyda'r *canlyniadau tybiannol* ar gyfer 2003
Y seddi a enillwyd

	Ceid	Llaf	DRh	PC	Arall
Canolbarth a Gorllewin Cymru					
Seddi etholaethol	2	0	2	4	0
Seddi rhanbarthol	1	2	0	1	0
Cyfanswm y seddi a enillwyd	3	2	2	5	0
Newidiadau	0	-1	0	+1	0


- Collodd Llafur 2 o seddi etholaethol (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro, a Phreseli Sir Benfro) i'r Ceidwadwyr ac 1 (Llanelli) i Blaid Cymru.
- Gostyngodd nifer seddi rhanbarthol y Ceidwadwyr o 3 i 1, gyda Llafur yn ennill 2 o seddi rhanbarthol.

Cyfrannau'r pleidleisiau a nifer y seddi


Y bleidlais etholaethol



Y bleidlais ranbarthol




Seddi



- Plaid Cymru oedd â chyfran fwyaf y bleidlais yn y bleidlais etholaethol a rhanbarthol. Roedd ganddi fwy na'r Ceidwadwyr yn y ddwy bleidlais.
- Gyda'i gilydd, cafodd y pleidiau 'eraill' bron i 15 y cant o'r bleidlais ranbarthol.
- Cafodd Llafur a'r Democratiaid Rhyddfrydol tua pumed rhan yr un o'r bleidlais genedlaethol.


Newidiadau yn y cyfrannau o’u cymharu â 2003

Y bleidlais etholaethol




- Cynyddodd y Ceidwadwyr eu cyfran o’r pleidleisiau etholaethol a rhanbarthol 4 pwynt %.
- Cynyddodd Plaid Cymru ei chyfran yn y ddwy bleidlais - ychydig dros 2 bwynt % yn un ohonynt ac ychydig o dan 2 bwynt % yn y llall.

Y bleidlais ranbarthol



- Gostyngodd cyfran Llafur fwy na 5 pwynt % tra bo cyfran y Democratiaid Rhyddfrydol o’r bleidlais ranbarthol 2.6 pwynt % yn llai nag yn 2003.
- Gyda’i gilydd, cynyddodd cyfran y pleidiau ‘eraill’ o’r bleidlais ranbarthol bron i 4 pwynt %.

Gwahaniaethau yn y pleidleisiau etholaethol a rhanbarthol - Canolbarth a Gorllewin Cymru



- Roedd cyfran y Democratiaid Rhyddfrydol o’r bleidlais yn y bleidlais etholaethol bron i 7 pwynt % yn uwch nag yn yr etholiad rhanbarthol. Yn yr un modd, roedd cyfran Plaid Cymru bron i 5 pwynt % yn uwch.
- Roedd cyfran y pleidiau ‘eraill’ dros 12 pwynt % yn uwch na’u cyfran yn y bleidlais etholaethol.

Nodyn: Mae amrywiad o bwynt canrannol negyddol yn golygu bod plaid wedi cael cyfran uwch o’r bleidlais yn y bleidlais ranbarthol nag yn y bleidlais etholaethol.

2.2.2. Gogledd Cymru


Gwneir y cymariaethau gyda'r *canlyniadau tybiannol* ar gyfer 2003
Y seddi a enillwyd

	Ceid	Llaf	Drh	PC	Arall
Gogledd Cymru					
Seddi etholaethol	1	5	0	3	0
Seddi rhanbarthol	2	0	1	1	0
Cyfanswm y seddi a enillwyd	3	5	1	4	0
Newidiadau	0	0	0	+1	-1


- Enillodd Llafur sedd Wrecsam oddi ar yr ymgeisydd annibynnol John Marek, ond enillodd y Ceidwadwyr sedd Gorllewin Clwyd oddi ar Lafur.
- Enillodd Plaid Cymru y ddwy etholaeth newydd a ffurfiwyd, sef Aberconwy ac Arfon, yn dilyn newidiadau i'r ffiniau ers etholiadau 2003.
- O'u cymharu â chanlyniadau tybiannol 2003, enillodd y Ceidwadwyr 1 sedd yn llai yn 2007, ac enillodd Plaid Cymru 1 sedd ychwanegol. (Fodd bynnag, o'u cymharu â chanlyniadau tybiannol 2003 ar gyfer ardal Gogledd Cymru gynt, mae'r seddi rhanbarthol wedi aros yr un fath.)

Cyfrannau'r pleidleisiau a nifer y seddi


Y bleidlais etholaethol



Y bleidlais ranbarthol




Seddi




- Llafur a gadwodd gyfran fwyaf y bleidlais etholaethol, o flaen Plaid Cymru a'r Ceidwadwyr, a oedd â chyfrannau tebyg.
- Yn y bleidlais ranbarthol, llwyddodd Llafur, Plaid Cymru a'r Ceidwadwyr i gael tua chwarter y bleidlais yr un.
- Gyda'i gilydd, enillodd y pleidiau 'eraill' dros 10 y cant o'r bleidlais etholaethol a bron i 15 y cant o'r bleidlais ranbarthol.

Newidiadau yn y cyfrannau o'u cymharu â 2003


Y bleidlais etholaethol



Y bleidlais ranbarthol



Gwahaniaethau yn y pleidleisiau etholaethol a rhanbarthol - Gogledd Cymru



- Gostyngodd cyfran Llafur dros 5 pwynt % yn y ddwy bleidlais.
- Gostyngodd cyfran y Democratiaid Rhyddfrydol hefyd yn y bleidlais etholaethol (1.5 pwynt %) ac yn y bleidlais ranbarthol (2.5 pwynt %).
- Cynyddodd y Ceidwadwyr a Phlaid Cymru eu cyfran yn y ddwy bleidlais.
- Cynyddodd y pleidiau 'eraill' eu cyfran o'r bleidlais yn y bleidlais ranbarthol ac hefyd fwy na 4 pwynt % yn y bleidlais etholaethol.
- Roedd cyfran Llafur o'r bleidlais yn y bleidlais etholaethol 3 pwynt % yn uwch nag yn y bleidlais ranbarthol.
- Ar y llaw arall, roedd cyfran y pleidiau 'eraill' bron i 4 pwynt % yn uwch yn y bleidlais ranbarthol nag yn y bleidlais etholaethol.

Nodyn: Mae amrywiad o bwynt canrannol negyddol yn golygu bod plaid wedi cael cyfran uwch o'r bleidlais yn y bleidlais ranbarthol nag yn y bleidlais etholaethol.

2.2.3. Canol De Cymru

Gwneir y cymariaethau gyda'r *canlyniadau tybiannol* ar gyfer 2003
Y seddi a enillwyd




Canol De Cymru

Seddi etholaethol	1	6	1	0	0
Seddi rhanbarthol	2	0	0	2	0
Cyfanswm y seddi a enillwyd	3	6	1	2	0
Newidiadau	+1	-1	0	0	0


- Enillodd y Ceidwadwyr sedd Gogledd Caerdydd oddi ar Lafur, sy'n parhau i ddal hanner y seddi yn y rhanbarth.
- Arhosodd cyfrannau'r seddi rhanbarthol yr un fath ag yn 2003; dwy i'r Ceidwadwyr a dwy i Blaid Cymru.

Cyfrannau'r pleidleisiau a nifer y seddi


Y bleidlais etholaethol



Y bleidlais ranbarthol




Seddi



- Llwyddodd Llafur i gael bron i ddwy ran o bump o'r bleidlais yn y bleidlais etholaethol. Y Ceidwadwyr ddaeth yn ail gyda bron i chwarter y bleidlais.
- Daeth y Democratiaid Rhyddfrydol yn drydydd o ran y gyfran yn y bleidlais etholaethol ond daethant y tu ôl i Blaid Cymru yn y bleidlais ranbarthol.
- Gyda'i gilydd, cafodd yr ymgeiswyr 'eraill' bron i 15 y cant o'r bleidlais yn y bleidlais ranbarthol.


Newidiadau yn y cyfrannau o’u cymharu â 2003

Y bleidlais etholaethol




- Cynyddodd y Ceidwadwyr eu cyfran o’r bleidlais dros 3 pwynt % yn y bleidlais ranbarthol a bron i 5 pwynt % yn y bleidlais etholaethol.
- Ni newidiodd cyfran y Democratiaid Rhyddfrydol lawer yn y bleidlais ranbarthol ond cododd 3 pwynt % yn y bleidlais etholaethol.

Y bleidlais ranbarthol



- Gyda’i gilydd, gostyngodd cyfran y pleidiau ‘eraill’ yn y bleidlais etholaethol ond cynyddodd eu cyfran bron i 4 pwynt % yn y bleidlais ranbarthol.
- Gostyngodd cyfran Llafur 7 pwynt % yn y ddwy bleidlais.

Gwahaniaethau yn y pleidleisiau etholaethol a rhanbarthol - Canol De Cymru



- Roedd cyfran Llafur o’r bleidlais bron i 5 pwynt % yn uwch yn y bleidlais etholaethol nag yn y bleidlais ranbarthol.
- Perfformiodd y Democratiaid Rhyddfrydol yn well hefyd (gyda chynnydd o fwy na 4 pwynt %) yn y bleidlais etholaethol.
- Gyda’i gilydd, cafodd y pleidiau ‘eraill’ gyfran uwch o’r bleidlais yn y bleidlais ranbarthol nag yn y bleidlais etholaethol – 13 pwynt % yn uwch.

Nodyn: Mae amrywiad o bwynt canrannol negyddol yn golygu bod plaid wedi cael cyfran uwch o’r bleidlais yn y bleidlais ranbarthol nag yn y bleidlais etholaethol.

2.2.4. Dwyrain De Cymru

Gwneir y cymariaethau gyda'r *canlyniadau tybiannol* ar gyfer 2003
Y seddi a enillwyd




Dwyrain De Cymru

Seddi etholaethol	1	6	0	0	1
Seddi rhanbarthol	1	0	1	2	0
Cyfanswm y seddi a enillwyd	2	6	1	2	1
Newidadau	-1	-1	0	+1	+1


- Cadwodd yr ymgeisydd annibynnol Trish Law sedd Blaenau Gwent a enillodd yn wreiddiol yn ystod isetholiad 2006.
- Enillodd Plaid Cymru sedd ranbarthol oddi ar y Ceidwadwyr.

Cyfrannau'r pleidleisiau a nifer y seddi


Y bleidlais etholaethol



Y bleidlais ranbarthol




Seddi



- Cafodd Llafur tua 35 y cant o'r bleidlais yn y ddwy bleidlais ac enillodd hanner y seddi yn y rhanbarth.
- Gyda'i gilydd, enillodd y pleidiau 'eraill' tua phumed rhan o'r pleidleisiau etholaethol a rhanbarthol, er bod y blaid Llais y Bobl wedi ennill 8.4 y cant o'r bleidlais yn y bleidlais etholaethol.
- Enillodd y Ceidwadwyr bumed rhan o'r bleidlais yn y ddwy bleidlais ac un sedd ranbarthol.


Newidiadau yn y cyfrannau o'u cymharu â 2003

Y bleidlais etholaethol




- Gostyngodd cyfran Llafur o'r bleidlais 9 pwynt % yn y bleidlais ranbarthol ac 15 pwynt % yn y bleidlais etholaethol.
- Cynyddodd y Democratiaid Rhyddfrydol eu cyfran o'r bleidlais 2 bwynt % yn y bleidlais etholaethol.

Y bleidlais ranbarthol



- Gyda'i gilydd, cynyddodd cyfran y pleidiau 'eraill' o'r bleidlais yn y bleidlais etholaethol 14 pwynt % (gyda'r pleidleisiau dros blaid Llais y Bobl yn cynrychioli dros hanner y cynnydd) ac 8 pwynt % yn y bleidlais ranbarthol.

Gwahaniaethau yn y pleidleisiau etholaethol a rhanbarthol - Dwyrain De Cymru



- Nid oedd llawer o wahaniaeth yng nghyfrannau canrannol y bleidlais fesul plaid rhwng y pleidleisiau etholaethol a rhanbarthol.

Nodyn: Mae amrywiad o bwynt canrannol negyddol yn golygu bod plaid wedi cael cyfran uwch o'r bleidlais yn y bleidlais ranbarthol nag yn y bleidlais etholaethol.


2.2.5. Gorllewin De Cymru

Gwneir y cymariaethau gyda'r *canlyniadau tybiannol* ar gyfer 2003
Y seddi a enillwyd


	Ceid	Llaf	DRh	PC	Arall
Gorllewin De Cymru					
Seddi etholaethol	0	7	0	0	0
Seddi rhanbarthol	1	0	1	2	0
Cyfanswm y seddi a enillwyd	1	7	1	2	0
Newidiadau	0	0	0	0	0

- Enillodd Llafur bob un o'r saith sedd etholaethol yng Ngorllewin De Cymru yn 2007, fel y gwnaeth yn Etholiad y Cynulliad yn 2003.
- Nid oedd newid yng nghyfrannau'r seddi rhanbarthol, gyda Phlaid Cymru'n ennill dwy o'r seddi, a'r Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn ennill un sedd yr un.


Cyfrannau'r pleidleisiau a nifer y seddi
Y bleidlais etholaethol



Y bleidlais ranbarthol




Seddi



- Enillodd Llafur dros 40 y cant o'r bleidlais yn y bleidlais etholaethol a chafodd fwy na dwbl cyfran y blaidd a oedd yn ail yn y ddwy bleidlais.
- Plaid Cymru a gafodd y gyfran ail uchaf yn y ddwy bleidlais, gyda'r Ceidwadwyr yn dilyn yn agos yn drydydd.
- Gyda'i gilydd, enillodd y pleidiau 'eraill' 18 y cant o'r bleidlais ranbarthol.


Newidiadau yn y cyfrannau o’u cymharu â 2003

Y bleidlais etholaethol




- Gostyngodd cyfran Llafur yn y bleidlais etholaethol 7 pwynt % a 6 pwynt % yn y bleidlais ranbarthol.
- Cafodd y Ceidwadwyr y cynnydd mwyaf yng nghyfran y bleidlais (3 pwynt %) yn nhermau’r bleidlais etholaethol.

Y bleidlais ranbarthol



- Cynyddodd cyfran Plaid Cymru o’r bleidlais etholaethol 1.4 pwynt %.
- Gyda’i gilydd, cynyddodd cyfran y pleidiau ‘eraill’ o’r pleidleisiau etholaethol a rhanbarthol 2 bwynt % a 5 pwynt % yn y drefn honno.

Gwahaniaethau yn y pleidleisiau etholaethol a rhanbarthol - Gorllewin De Cymru



- Roedd cyfran Llafur o’r bleidlais yn y bleidlais etholaethol 6 pwynt % yn uwch na’i chyfran yn y bleidlais ranbarthol.
- Gyda’i gilydd, roedd cyfran y pleidiau ‘eraill’ yn y bleidlais ranbarthol 11 pwynt % yn uwch na’u cyfran yn y bleidlais etholaethol.

Nodyn: Mae amrywiad o bwynt canrannol negyddol yn golygu bod plaid wedi cael cyfran uwch o’r bleidlais yn y bleidlais ranbarthol nag yn y bleidlais etholaethol.

2.3. Crynodebau'r pleidiau

2.3.1. Y Ceidwadwyr

- Roedd gan y Ceidwadwyr ymgeisydd yn sefyll ym mhob etholaeth, a chyfanswm o 38 o ymgeiswyr ar gyfer rhestrau rhanbarthol y pleidiau. Collasant un blaendal, ym Mlaenau Gwent.
- Enillodd y Ceidwadwyr 12 o seddi yn 2007, un yn fwy nag yn 2003 a thair yn fwy nag yn 1999. Maent yn dal un rhan o bump o'r seddi yn y trydydd Cynulliad.

Tueddiadau: etholiadau Cynulliad 1999, 2003, 2007
Dangosir y canlyniadau *gwirioneddol* ar gyfer 1999 a 2003


Y Ceidwadwyr	1999	2003	2007
Seddi			
Seddi etholaethol	1	1	5
Seddi rhanbarthol	8	10	7
Cyfanswm y seddi a enillwyd	9	11	12
Newidiadau	.	+2	+1
Y bleidlais etholaethol			
Pleidleisiau (miloedd)	162	170	219
Canran y bleidlais	15.8%	19.9%	22.4%
Newid mewn pwynt canrannol	.	+4.1%	+2.4%
Y bleidlais ranbarthol			
Pleidleisiau (miloedd)	168	163	209
Canran y bleidlais	16.5%	19.2%	21.5%
Newid mewn pwynt canrannol	.	+2.7%	+2.3%

- Eu cyfran o'r bleidlais etholaethol yw 22.4 y cant a'u cyfran o'r bleidlais ranbarthol yw 21.5 y cant. Cafwyd cynnydd o 6.6 pwynt % a 5 pwynt % ers etholiad 1999.

- Mae gan y Ceidwadwyr un Aelod Cynulliad sy'n fenyw (Angela Burns), un yn llai nag yn etholiad 2003.

- O'i gymharu â chyfran y bleidlais yn 2003, roedd gogwydd o rhwng 5 a 10 pwynt % o Lafur i'r Ceidwadwyr mewn naw etholaeth, dros y pum rhanbarth. Roedd y gogwydd mwyaf (gogwydd o 9.8 pwynt %) yng Ngŵyr.

Tueddiadau: Y bleidlais etholaethol 1999 - 2007



Y Ceidwadwyr: y cyfrannau mwyaf a lleiaf ym mhleidlais etholaethol 2007

Gwneir y cymariaethau gyda'r canlyniadau tybiannol ar gyfer 2003






Y cynnydd mwyaf yng nghyfran ganrannol y bleidlais o 2003 (pt %)			Y gostyngiadau mwyaf yng nghyfran ganrannol y bleidlais o 2003 (pt %)		
1	De Clwyd	+10.7%	1	Ynys Môn	-15.5%
2	Gŵyr	+10.2%	2	Mynwy	-5.5%
3	Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro	+9.8%	3	Arfon	-3.5%
Y gyfran ganrannol fwyaf o'r bleidlais			Y gyfran ganrannol leiaf o'r bleidlais		
1	Mynwy	52.1%	1	Blaenau Gwent	4.0%
2	Gogledd Caerdydd	45.3%	2	Rhondda	5.1%
3	Preseli Sir Benfro	38.6%	3	Merthyr Tudful a Rhymni	5.5%

Nodyn: Mae'r blociau lliw yn dangos y blaidd fuddugol








Mae'r tabl cyntaf isod yn dangos y pum sedd etholaethol a enillwyd gan y Ceidwadwyr yn 2007, wedi'u rhestru yn ôl y mwyafrif. Sedd etholaethol ddiogelaf y Ceidwadwyr yw Mynwy (Nick Ramsay), gyda mwyafrif o 28.6 y cant.

Mae'r ail dabl yn dangos y seddi rhanbarthol a enillwyd gan y Ceidwadwyr, yn ogystal â'r drefn o ran dyraniad y seddi rhanbarthol gan ddefnyddio fformiwla d'Hondt. Er enghraifft, yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, dyrannwyd sedd i'r blaid yn ystod y trydydd cylch o gyfrifiadau.

Seddi etholaethol y Ceidwadwyr yn ôl mwyafrif


		Mwyafrif	% y mwyafr
1	 Mynwy	8,469	28.6%
2	 Gogledd Caerdydd	4,844	14.4%
3	 Preseli Sir Benfro	3,205	11.2%
4	 Gorllewin Clwyd	1,596	6.1%
5	 Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro	98	0.3%

Seddi rhanbarthol y Ceidwadwyr yn ôl y drefn y cawsant eu dyrannu o fewn y rhanbarth


	Trefn y sedd o fewn y rhanbarth
 Canolbarth a Gorllewin Cymru	3ydd
 Gogledd Cymru	1af
 Gogledd Cymru	2ail
 Canol De Cymru	2ail
 Canol De Cymru	4ydd
 Dwyrain De Cymru	3ydd
 Gorllewin De Cymru	2ail

Mae'r mapiau ar y ddwy dudalen nesaf yn dangos yr etholaethau a'r rhanbarthau wedi'u lliwio yn ôl cyfran y bleidlais, neu'r newid yn nghyfran y bleidlais a enillwyd gan y Ceidwadwyr. Mae'r wybodaeth am y lefel etholaethol yn ymwneud â'r bleidlais etholaethol, ac mae'r wybodaeth am y lefel ranbarthol yn ymwneud â'r bleidlais ranbarthol.

Map yn dangos cyfran y bleidlais a enillwyd gan y Ceidwadwyr, yn y pleidleisiau etholaethol a rhanbarthol (y map ar y chwith)



Map yn dangos y newid o ran y pwynt canrannol yng nghyfran y bleidlais a enillwyd gan y Ceidwadwyr, yn y pleidleisiau etholaethol a rhanbarthol (map ar y chwith)
 Gwneir y cymariaethau gyda'r *canlyniadau tybiannol* ar gyfer 2003




2.3.2. Llafur

- Roedd gan Lafur ymgeisydd yn sefyll ym mhob etholaeth, a chyfanswm o 25 o ymgeiswyr ar restrau rhanbarthol y pleidiau. Ni cholodd unrhyw flaendaliadau.
- Enillodd Llafur 26 o seddi yn 2007, 43.3 y cant o seddi'r Cynulliad, 4 sedd yn llai nag a gafodd yn 2003, a 2 sedd yn llai nag yn 1999.
- Enillodd Llafur gyfran fwyaf y bleidlais, sef 32.2 y cant yn y bleidlais etholaethol a 29.6 y cant yn y bleidlais ranbarthol. Mae ei chyfran yn y ddwy bleidlais wedi gostwng ers 2003.
- Cynyddodd Llafur ei chyfran o'r bleidlais etholaethol mewn un etholaeth yn unig, sef Canol Caerdydd, gyda chynnydd o 2.0 pwynt %.
- Cafwyd y gostyngiad mwyaf yn ei chyfran o'r bleidlais, (-38.9 pwynt %) ym Mlaenau Gwent lle cadwodd Trish Law y sedd a enillwyd gan Lafur yn ystod isetholiad 2006.
- Mae gan Lafur 16 o Aelodau Cynulliad sy'n fenywod, y nifer a'r gyfran fwyaf gan unrhyw blaid.
- O gymharu hynny â chyfran y bleidlais etholaethol yn 2003, roedd 18 achos o drosglwyddo dros 5 pwynt % o Lafur i blaid neu ymgeisydd arall. Mewn traean o'r achosion, collodd Llafur y sedd. Roedd trosglwyddiad o 6 pwynt % o'r ymgeisydd annibynnol John Marek i Lafur yn Wrecsam.

Tueddiadau: etholiadau Cynulliad 1999, 2003, 2007
Dangosir y canlyniadau *gwirioneddol* ar gyfer 1999 a 2003













Llafur	1999	2003	2007
Seddi			
Seddi etholaethol	27	30	24
Seddi rhanbarthol	1	0	2
Cyfanswm y seddi a enillwyd	28	30	26
Newidiadau	.	+2	-4
Y bleidlais etholaethol			
Pleidleisiau (miloedd)	385	341	315
Canran y bleidlais	37.6%	40.0%	32.2%
Newid mewn pwynt canrannol	.	+2.4%	-7.8%
Y bleidleis ranbarthol			
Pleidleisiau (miloedd)	362	311	289
Canran y bleidlais	35.4%	36.6%	29.6%
Newid mewn pwynt canrannol	.	+1.2%	-6.9%

Tueddiadau: Y bleidlais etholaethol 1999 - 2007



Llafur: y cyfrannau mwyaf a lleiaf ym mhleidlais etholaethol 2007

























Gwneir y cymariaethau gyda'r canlyniadau tybiannol ar gyfer 2003

Y cynnydd mwyaf/y gostyngiadau lleiaf yng nghyfran ganrannol y bleidlais o 2003 (pt %)			Y gostyngiadau mwyaf yng nghyfran ganrannol y bleidlais o 2003 (pt %)				
1		Canol Caerdydd	+2.0%	1		Blaenau Gwent	-38.9%
2		De Clwyd	-1.4%	2		Merthyr Tudful a Rhymni	-23.5%
3		Pen-y-bont ar Ogwr	-2.3%	3		Islwyn	-18.2%
Y gyfran ganrannol fwyaf o'r bleidlais			Y gyfran ganrannol leiaf o'r bleidlais				
1		Rhondda	58.2%	1		Ceredigion	5.1%
2		Cwm Cynon	56.7%	2		Sir Drefaldwyn	6.9%
3		Ogwr	51.7%	3		Brycheiniog a Sir Faesyfed	8.7%



Nodyn: Mae'r blociau lliw yn dangos y blaid fuddugol

Mae'r tabl cyntaf isod yn dangos y 24 o seddi etholaethol a enillwyd gan Lafur yn 2007, wedi'u rhestru yn ôl mwyafrif canrannol. Ei sedd etholaethol ddiogelaf yw Ogwr (Janice Gregory), lle cafwyd mwyafrif o 34.7 y cant. Cadwodd Llafur dair o'r pedair etholaeth lle ceir y mwyafrif mwyaf ymylol, sef Bro Morgannwg (0.2 y cant), Dyffryn Clwyd (0.4 y cant) a Delyn (2.4 y cant).

Seddi etholaethol Llafur wedi'u rhestru yn ôl mwyafrif

		Mwyafrif % y mwyafrif	
1		Ogwr	7,900 34.7%
2		Aberafan	6,571 32.0%
3		Cwm Cynon	5,623 28.8%
4		Rhondda	6,215 28.1%
5		Dwyrain Abertawe	4,961 23.9%
6		Tor-faen	5,396 23.2%
7		Merthyr Tudful a Rhymni	4,581 21.8%
8		Alun a Glannau Dyfrdwy	3,362 15.9%
9		Pontypridd	3,387 14.4%
10		Gorllewin Caerdydd	3,698 13.8%
11		Pen-y-bont ar Ogwr	2,556 10.4%
12		De Caerdydd a Phenarth	2,754 10.3%
13		Islwyn	2,218 9.4%
14		Caerffili	2,287 8.8%
15		Castell-nedd	1,944 7.7%
16		Gorllewin Abertawe	1,511 6.6%
17		Wrecsam	1,250 6.4%
18		Gorllewin Casnewydd	1,401 5.9%
19		De Clwyd	1,119 5.7%
20		Dwyrain Casnewydd	875 4.4%
21		Gŵyr	1,192 4.3%
22		Delyn	511 2.4%
23		Dyffryn Clwyd	92 0.4%
24		Bro Morgannwg	83 0.2%

Seddi rhanbarthol Llafur yn ôl y drefn y cawsant eu dyrannu o fewn y rhanbarth

	Trefn y sedd o fewn y rhanbarth
	Canolbarth a Gorllewin Cymru 1af
	Canolbarth a Gorllewin Cymru 2ail



Mae'r ail dabl yn dangos pob sedd ranbarthol a enillwyd gan Lafur, yn ogystal â'r drefn o ran dyraniad y seddi rhanbarthol gan ddefnyddio fformiwla d'Hondt. Yn y Canolbarth a Gorllewin Cymru, dyrannwyd sedd i'r blaid yn ystod cylch cyntaf ac ail gylch y cyfrifiadau.

Mae'r mapiau ar y ddwy dudalen nesaf yn dangos yr etholaethau a'r rhanbarthau wedi'u lliwio yn ôl cyfran y bleidlais, neu'r newid yn nghyfran y bleidlais a enillwyd gan Lafur. Mae'r wybodaeth am y lefel etholaethol yn ymwneud â'r bleidlais etholaethol, ac mae'r wybodaeth am y lefel ranbarthol yn ymwneud â'r bleidlais ranbarthol.

Map yn dangos cyfran y bleidlais a enillwyd gan Lafur, yn y pleidleisiau etholaethol a rhanbarthol (y map ar y chwith)

Cyfran y bleidlais:

Llafur




© Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2010.
Cedwir pob hawl. Rhif Trwydded yr Arolwg
Ordians 100047295.

Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau

Map yn dangos y newid yn y pwynt canrannol yng nghyfran y bleidlais a enillwyd gan Lafur, yn y pleidleisiau etholaethol a rhanbarthol (map ar y chwith)

Gwneir y cymariaethau gyda'r canlyniadau tybiannol ar gyfer 2003




2.3.3. Y Democratiaid Rhyddfrydol

- Roedd gan y Democratiaid Rhyddfrydol ymgeisydd yn sefyll ym mhob etholaeth, a chyfanswm o 33 o ymgeiswyr ar restrau rhanbarthol y pleidiau. Collasant dri blaendal, yn Llanelli, Ynys Môn ac Islwyn.
- Enillodd y Democratiaid Rhyddfrydol 6 o seddi yn etholiad 2007, yr un nifer ag yn yr etholaethau a gynhaliwyd yn 1999 a 2003. Mae ganddynt 10 y cant o seddi'r Cynulliad.
- Ni cholodd y Democratiaid Rhyddfrydol unrhyw un o'u seddi yn etholiad 2007.
- Enillodd y Democratiaid Rhyddfrydol 14.8 y cant o'r bleidlais etholaethol ac 11.7 y cant o'r bleidlais ranbarthol.
- Cynyddodd eu cyfran o'r bleidlais etholaethol 0.6 pwynt % ers 2003, ond gostyngodd eu cyfran o'r bleidlais ranbarthol 1.0 pwynt %.
- Mae gan y Democratiaid Rhyddfrydol dri Aelod Cynulliad sy'n fenywod, sef Eleanor Burnham, Jenny Randerson a Kirsty Williams.
- O gymharu hynny â'r gyfran o'r bleidlais yn 2003, roedd tri achos o drosglwyddo dros 10 pwynt % o Lafur i'r Democratiaid Rhyddfrydol, ym Merthyr Tydfil a Rhymni, Dwyrain Casnewydd a Phontypridd.

Tueddiadau: etholiadau Cynulliad 1999, 2003, 2007
Dangosir y canlyniadau *gwirioneddol* ar gyfer 1999 a 2003

Y Democratiaid Rhyddfrydol	1999	2003	2007
Seddi			
Seddi etholaethol	3	3	3
Seddi rhanbarthol	3	3	3
Cyfanswm y seddi a enillwyd	6	6	6
Newidiadau	.	0	0
Y bleidlais etholaethol			
Pleidleisiau (miloedd)	138	120	144
Canran y bleidlais	13.5%	14.1%	14.8%
Newid mewn pwynt canrannol	.	+0.7%	+0.6%
Y bleidlais ranbarthol			
Pleidleisiau (miloedd)	128	108	115
Canran y bleidlais	12.5%	12.7%	11.7%
Newid mewn pwynt canrannol	.	+0.2%	-1.0%

Tueddiadau: y bleidlais etholaethol 1999 - 2007



Y Democratiaid Rhyddfrydol: y cyfrannau mwyaf a lleiaf ym mhleidlais etholaethol 2007




Gwneir y cymariaethau gyda'r canlyniadau tybiannol ar gyfer 2003

Cynnydd mwyaf yng nghyfran ganrannol y bleidlais o (pt %)	2003	Y gostyngiadau mwyaf yng nghyfran ganrannol y bleidlais o 2003 (pt %)	
1 ■ Pontypridd	+13.1%	1 ■ Dwyrain Abertawe	-6.7%
2 ■ Dwyrain Casnewydd	+11.5%	2 ■ Alun a Glannau Dyfrdwy	-6.7%
3 ■ Ceredigion	+8.5%	3 ■ Aberconwy	-6.1%
Y gyfran ganrannol fwyaf o'r bleidlais		Y gyfran ganrannol leiaf o'r bleidlais	
1 ■ Brycheiniog a Sir Faesyfed	52.2%	1 ■ Ynys Môn	3.4%
2 ■ Canol Caerdydd	51.2%	2 ■ Llanelli	3.8%
3 ■ Sir Drefaldwyn	39.0%	3 ■ Islwyn	4.8%

Nodyn: Mae'r blociau lliw yn dangos y blaidd fuddugol




Mae'r tabl cyntaf isod yn dangos y dair sedd etholaethol a enillwyd gan y Democratiaid Rhyddfrydol yn 2007, wedi'u rhestru yn ôl mwyafrif. Eu sedd etholaethol mwyaf diogel yw Canol Caerdydd (Jenny Randerson), lle cawsant fwyafrif o 29.3 y cant.

Seddi etholaethol y Democratiaid Rhyddfrydol wedi'u rhestru yn ôl mwyafrif

		Mwyafrif	% y mwyafrif
1	 Canol Caerdydd	6,565	29.3%
2	 Brycheiniog a Sir Faesyfed	5,354	18.6%
3	 Sir Drefaldwyn	1,979	8.9%


Mae'r ail dabl yn dangos pob sedd ranbarthol a enillwyd gan y Democratiaid Rhyddfrydol, yn ogystal â'r drefn o ran dyraniad y seddi rhanbarthol gan ddefnyddio fformiwla d'Hondt. Er enghraifft, yng Ngogledd Cymru, dyrannwyd sedd i'r blaid yn ystod trydydd cylch y cyfrifiadau. Yn y Canolbarth a Gorllewin Cymru, dyrannwyd sedd i'r blaid yn ystod cylch cyntaf ac ail gylch y cyfrifiadau.

Seddi rhanbarthol y Democratiaid Rhyddfrydol yn ôl y drefn y cawsant eu dyrannu o fewn y rhanbarth


	Trefn y sedd o fewn y rhanbarth
 Gogledd Cymru	3ydd
 Dwyrain De Cymru	2ail
 Gorllewin De Cymru	3ydd

Mae'r mapiau ar y ddwy dudalen nesaf yn dangos yr etholaethau a'r rhanbarthau wedi'u lliwio yn ôl cyfran y bleidlais, neu'r newid yn nghyfran y bleidlais a enillwyd gan y Democratiaid Rhyddfrydol. Mae'r wybodaeth am y lefel etholaethol yn ymwneud â'r bleidlais etholaethol, ac mae'r wybodaeth am y lefel ranbarthol yn ymwneud â'r bleidlais ranbarthol

Map yn dangos cyfran y bleidlais a enillwyd gan y Democratiaid Rhyddfrydol, yn y pleidleisiau Etholaethol a Rhanbarthol (y map ar y chwith)



Map yn dangos y newid yn y pwynt canrannol yng nghyfran y bleidlais a enillwyd gan y Democratiaid Rhyddfrydol, yn y pleidleisiau etholaethol a rhanbarthol (map ar y chwith)
 Gwneir y cymariaethau gyda'r canlyniadau tybiannol ar gyfer 2003




2.3.4. Plaid Cymru

- Roedd gan Blaid Cymru ymgeisydd yn sefyll ym mhob etholaeth, a chyfanswm o 20 o ymgeiswyr ar restrau rhanbarthol y pleidiau. Collodd un blaendal, ym Mlaenau Gwent.
- Enillodd Plaid Cymru 15 o seddi yn etholiad 2007, sef 25 y cant o'r seddi yn y trydydd Cynulliad. Roedd hyn dair sedd yn fwy na'r nifer yn etholiad 2003, ond dwy yn llai na'r 17 o seddi a enillodd yn etholiad 1999.
- Ei chyfran o'r bleidlais etholaethol a'r bleidlais ranbarthol yw 22.4 y cant a 21.0 y cant yn y drefn honno. Mae hyn yn gynydd o 1.2 pwynt % ac 1.3 pwynt % ers etholiadau 2003. Mae'n is na chyfran y bleidlais a gafodd yn 1999.
- Mae gan Blaid Cymru saith o Aelodau Cynulliad sy'n fenywod; ychydig o dan hanner nifer yr aelodau a etholwyd i gynrychioli Plaid Cymru.
- Yn etholiad 2007, etholwyd yr Aelod Cynulliad cyntaf o leiafrif ethnig i gynrychioli Plaid Cymru (Mohammad Asghar, Dwyrain De Cymru).
- O gymharu hynny â chyfran y bleidlais yn 2003, trosglwyddwyd dros 10 pwynt % o Blaid Cymru i'r ymgeisydd annibynnol Peter Rogers yn Ynys Môn. Roedd trosglwyddiadau o dros 5 pwynt % o Lafur i Blaid Cymru yng Nghastell-nedd, Cwm Cynon a Llanelli (sedd a enillwyd gan Blaid Cymru).

Tueddiadau: etholiadau Cynulliad 1999, 2003, 2007
Dangosir y canlyniadau *gwirioneddol* ar gyfer 1999 a 2003













Plaid Cymru	1999	2003	2007
Seddi			
Seddi etholaethol	9	5	7
Seddi rhanbarthol	8	7	8
Cyfanswm y seddi a enillwyd	17	12	15
Newidiadau	.	-5	+3
Y bleidlais etholaethol			
Pleidleisiau (miloedd)	291	180	219
Canran y bleidlais	28.4%	21.2%	22.4%
Newid mewn pwynt canrannol	.	-7.2%	+1.2%
Y bleidlais ranbarthol			
Pleidleisiau (miloedd)	312	168	205
Canran y bleidlais	30.5%	19.7%	21.0%
Newid mewn pwynt canrannol	.	-10.8%	+1.3%

Tueddiadau: Y bleidlais etholaethol 1999 - 2007



Plaid Cymru: y cyfrannau mwyaf a lleiaf ym mhleidlais etholaethol 2007








Gwneir y cymariaethau gyda'r canlyniadau tybiannol ar gyfer 2003

Cynnydd mwyaf yng nghyfran ganrannol y bleidlais o 2003 (pt %)			Y gostyngiadau mwyaf yng nghyfran ganrannol y bleidlais o 2003 (pt %)			
1		Aberconwy	+8.9%	1	 Gorllewin Abertawe	-7.3%
2		Llanelli	+7.4%	2	 Blaenau Gwent	-4.8%
3		Castell-nedd	+6.9%	3	 Merthyr Tudful a Rhymni	-4.2%
Y gyfran ganrannol fwyaf o'r bleidlais			Y gyfran ganrannol leiaf o'r bleidlais			
1		Dwyfor Meirionnydd	59.7%	1	 Blaenau Gwent	4.8%
2		Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr	53.5%	2	 Brycheiniog a Sir Faesyfed	5.5%
3		Arfon	52.4%	3	 Alun a Glannau Dyfrdwy	6.6%

Nodyn: Mae'r blociau lliw yn dangos y blaid fuddugol

Mae'r tabl cyntaf isod yn dangos y 7 o seddi etholaethol a enillwyd gan Blaid Cymru yn 2007, wedi'u rhestru yn ôl mwyafrif canrannol. Ei sedd etholaethol ddiogelaf yw Dwyfor Meirionnydd (Dafydd Elis-Thomas), lle cafwyd mwyafrif o 40.1 y cant, y mwyafrif etholaethol mwyaf yng Nghymru.









Seddi etholaethol Plaid Cymru wedi'u rhestru yn ôl mwyafrif

	Mwyafrif	% y mwyafrif
1  Dwyfor Meirionnydd	8,868	40.1%
2  Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr	8,469	28.9%
3  Arfon	5,018	25.6%
4  Ynys Môn	4,392	16.4%
5  Llanelli	3,884	14.1%
6  Ceredigion	3,955	13.1%
7  Aberconwy	1,693	8.2%

Mae'r ail tabl yn dangos pob sedd ranbarthol a enillwyd gan Blaid Cymru, yn ogystal â'r drefn o ran dyraniad y seddi ranbarthol gan ddefnyddio fformiwla d'Hondt. Yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, dyrannwyd sedd i'r blaid yn ystod pedwaredd cylch y cyfrifiadau.


Mae'r mapiau ar y ddwy dudalen nesaf yn dangos yr etholaethau a'r rhanbarthau wedi'u lliwio yn ôl cyfran y bleidlais, neu'r newid yn nghyfran y bleidlais a enillwyd gan Blaid Cymru.

Seddi ranbarthol Plaid Cymru yn ôl y drefn y cawsant eu dyrannu o fewn y rhanbarth

	Trefn y sedd o fewn y rhanbarth
 Canolbarth a Gorllewin Cymru	4ydd
 Gogledd Cymru	4ydd
 Canol De Cymru	1af
 Canol De Cymru	3ydd
 Dwyrain De Cymru	1af
 Dwyrain De Cymru	4ydd
 Gorllewin De Cymru	1af
 Gorllewin De Cymru	4ydd


Mae'r wybodaeth am y lefel etholaethol yn ymwneud â'r bleidlais etholaethol, ac mae'r wybodaeth am y lefel ranbarthol yn ymwneud â'r bleidlais ranbarthol.

Map yn dangos cyfran y bleidlais a enillwyd gan Plaid Cymru, yn y pleidleisiau etholaethol a rhanbarthol (y map ar y chwith)



Map yn dangos y newid yn y pwynt canrannol yng nghyfran y bleidlais a enillwyd gan Plaid Cymru, yn y pleidleisiau etholaethol a rhanbarthol (y map ar y chwith)

Gwneir y cymariaethau gyda'r canlyniadau tybiannol ar gyfer 2003



2.4. Seddi yr etholwyd Aelodau newydd iddynt (canlyniadau tybiannol)













































Etholwyd Aelodau newydd i saith o seddi etholaethol a phedair o seddi rhanbarthol rhwng etholiadau 2003 a 2007 (gan ddefnyddio'r canlyniadau tybiannol ar gyfer 2003), fel y dangosir yn y tabl isod.

- Enillodd y Ceidwadwyr bedair o seddi etholaethol ond collodd bedair o seddi rhanbarthol.
- Collodd Llafur chwe o seddi etholaethol ac enillodd dair o seddi (un etholaethol a dwy ranbarthol), gan olygu ei bod wedi colli tair o seddi.
- Nid oedd unrhyw newid yn y seddi a gadwyd gan y Democratiaid Rhyddfrydol.
- Enillodd Plaid Cymru dair o seddi ychwanegol (un etholaethol a dwy ranbarthol).
- Collodd yr ymgeisydd annibynnol John Marek, a oedd yn Aelod dros Wrecsam yn flaenorol, ei sedd i'r ymgeisydd Llafur.
- Enillodd Trish Law, yr ymgeisydd dros blaid Llais y Bobl, y sedd etholaethol ym Mlaenau Gwent a enillwyd gan y blaid Lafur yn dilyn etholiad 2003, ond a enillwyd gan Trish Law mewn isetholiad yn 2006.

Gwneir y cymariaethau gyda'r *canlyniadau tybiannol* ar gyfer 2003

Y seddi a newidiodd ddwylo

Gwneir y cymariaethau gyda'r canlyniadau tybiannol ar gyfer 2003


Yn ôl y blaid a gollodd	Yn ôl y blaid a enillodd
<p>Y seddi a gollwyd gan y Ceidwadwyr (4)</p> <ul style="list-style-type: none">   Canolbarth a Gorllewin Cymru   Canolbarth a Gorllewin Cymru   Gogledd Cymru   Dwyrain De Cymru 	<p>Y seddi a enillwyd gan y Ceidwadwyr (4)</p> <ul style="list-style-type: none">   Gogledd Caerdydd   Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro   Gorllewin Clwyd   Preseli Sir Benfro
